



Skills Builder
PARTNERSHIP

Fersiwn 2020-25
skillsbuilder.org



Y Fframwaith Cyffredinol

Cymraeg (Welsh)



Ni fu erioed yn bwysicach i'n plant a phobl ifanc ddatblygu set o sgiliau hanfodol er mwyn llwyddo mewn bywyd: y gallu i ddatrys problemau yn greadigol, i hunanreoli, i gyfathrebu'n effeithiol, ac i weithio'n dda gydag eraill.

Mae'r rhain yn sgiliau sydd eu hangen er mwyn llwyddo mewn bron â bod unrhyw beth. Mae'r angen am y sgiliau hyn yn glir, ond mae bwlch yno o hyd – mae gormod o blant a phobl ifanc nad ydynt yn datblygu'r sgiliau hyn i lefel y maent ei hangen, ac felly'n colli allan ar gyfleoedd i lwyddo mewn rhannau eraill o'u bywyd.

Yn rhy aml mae hwn yn faes ble mae terminoleg yn ddrwslyd ac yn cael ei ddrysau. Yr her ar gyfer yr holl ysgolion, colegau a sefydliadau sy'n rhan o'r Skills Builder Partnership yw mynd i'r afael â hyn: i fireinio dull cyson a chynhwysol o ymdrin â'r sgiliau hanfodol hyn.

Caiff sgiliau hanfodol eu diffinio fel: Gwrando, Siarad, Datrys Problemau, Creadigrwydd, Cadw Agwedd Bositif, Anelu'n Uchel, Arweinyddiaeth a Chydweithi



Y Fframwaith Cyffredinol

Mae'r Fframwaith Cyffredinol hwn a lansiwyd yn 2017 yn seiliedig ar y Fframwaith Meithrin Sgiliau gwreiddiol, sydd eisoes wedi profi i fod yn werthfawr ymysg plant a phobl ifanc ac mae wedi'i ddefnyddio o fewn mwy na 750 o sefydliadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Drwy broses o fireinio a phrofi a gymerodd 9 mis, mae'r Fframwaith wedi ymestyn a gwella i fod yn wirioneddol gynhwysol – gan helpu i uno'r ffordd y caiff y sgiliau hyn eu datblygu yn yr ysgol neu goleg i'r ffordd y bydd cyflogwr yn eu recriwtio ac yna'n eu cefnogi.

Gall addysgwyr ddefnyddio'r Fframwaith ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc i:

- Ddeall eu sgiliau presennol: myfyrio ar y sgiliau sydd ganddynt ar hyn o bryd, a nodi unrhyw fylchau posibl sydd ganddynt
- Gweld cynnydd: gallu gweld beth yw'r camau nesaf er mwyn gwella eu sgiliau hanfodol ymhellach
- Cysylltu bylchau: Defnyddio iaith gyson a dealltwriaeth o sgiliau hanfodol er mwyn deall sut maent yn cael eu defnyddio a'u hymarfer mewn nifer o sefyllfaoedd gwahanol
- Cofnodi llwyddiant: Gweld cynnydd a'r gallu i fynegi eu sgiliau yn well

Diogelir y deunyddiau hyn gan Drwydded Gyhoeddus Ryngwladol Creative Commons Attribution-ShareAlike 4.0. Mae'r Fframwaith ei hun (tudalennau 7-14) wedi'i ddiogelu gan Drwydded Gyhoeddus Ryngwladol Creative Commons Attribution-NoDerivatives 4.0 neilltuoel.

Gweithio gyda'n gilydd

Mae'r Fframwaith Cyffredinol ar gael am ddim ar gyfer pob addysgwr, a gallwch ddarganfod ffordd gyflawn o ddatblygu'r sgiliau hyn drwy'r Hwb Meithrin Sgiliau, gan gynnwys offer asesu a set lawn o ddeunydd addysgu a hyfforddi. Gobeithiwn y byddech yn ystyried ymuno â'r Bartneriaeth Meithrin Sgiliau, i weithio a dysgu gan ysgolion a cholegau eraill, ynghyd â chyflogwyr a sefydliadau datblygu sgiliau eraill. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd er mwyn sicrhau bod pawb, rhyw ddydd yn datblygu'r sgiliau hanfodol er mwyn llwyddo. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.


Tom Ravenscroft

CEO, Skills Builder Partnership

Mae datblygiad y Fframwaith Cyffredinol hwn wedi'i alluogi gan y Tasglu Sgiliau Hanfodol: CIPD, CBI, Gatsby Foundation, EY Foundation, Cwmni Gyrfaoedd a Menter, Business in the Community, a'r Bartneriaeth Meithrin Sgiliau.

Pwy sy'n defnyddio'r dull Skills Builder?

Rydym yn adeiladu clymblaid fyd-eang o addysgwyr, cyflogwyr a sefydliadau datblygu sgiliau, i gyd yn defnyddio dull gweithredu ar y cyd. Gan fod y sgiliau hyn yn drosglwyddadwy yn eang, mae ein sefydliadau partner yn cwmpasu ystod eang o ddiwydiannau a chanlyniadau gwahanol.



Rydym wedi dysgu llawer dros y blynyddoedd am y ffordd orau o feithrin sgiliau hanfodol. Er mwyn cael effaith go iawn, gwyddom fod yn rhaid datblygu'r sgiliau gyda chysondeb a ffocws. Mae'r egwyddorion hyn yn dal yn wir beth bynnag yw'r cyd-destun.



1. Ei gadw'n syml

Mae ffocws cyson ar y sgiliau hanfodol yn helpu i sicrhau dealltwriaeth a rennir rhwng pawb ac mae'n sicrhau bod meithrin y sgiliau hyn yn rhywbeth mor bendant ag y bo modd. Mae defnyddio'r un iaith drwy'r amser yn gwneud gwahaniaeth mawr.

Pethau i'w hystyried:

- A yw pawb yn gwybod pa sgiliau hanfodol rydych chi'n canolbwyntio arnyn nhw yn eich ysgol neu'ch coleg?
- A yw'r holl staff a myfyrwyr yn defnyddio iaith gyson wrth gyfeirio at y sgiliau?
- A yw'r holl staff yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth ar y sgiliau hyn?



2. Dechrau'n gynnar, cadw i fynd

Mae dechrau mor ifanc ag y bo modd yn caniatáu mwy o amser i feistroli. Nid yw'r sgiliau'n ymwneud â chyflogadwyedd yn unig, ond ynghylch ffynnu ym mhob agwedd ar fywyd.

Pethau i'w hystyried:

- Ydych chi'n meddwl am y sgiliau hyn ar gyfer yr holl fyfyrwyr rydych chi'n gweithio gyda nhw?
- A allech chi gyflwyno'r sgiliau hyn yn gynharach?
- A oes cyfleoedd i fyfyrwyr ddatblygu'r sgiliau ymhellach wrth iddynt dyfu i fyny?



3. Ei fesur

Neilltuo amser i fyfyrion am sgiliau plant a phobl ifanc – trwy arsylwi neu hunanasesu. Mae hyn yn cynnig dealltwriaeth gytbwys o gryfderau a gwendidau, gan amlygu cynnydd a dangos y camau nesaf.

Pethau i'w hystyried:

- Ydych chi'n defnyddio fframwaith sgiliau ac offeryn asesu cyson fel Skills Builder?
- A yw eich fframwaith yn adlewyrchu cynnydd mesuradwy dros amser?
- Ydych chi'n gwirio cynnydd yn rheolaidd?



4. Ffocws tynn

Dylai meithrin sgiliau ddatblygu dysgu blaenorol a chyrhaeddiad sgiliau plentyn neu berson ifanc. Dylai ganiatáu amser pwrpasol i feithrin y sgil yn benodol.

Pethau i'w hystyried:

- A oes gennych nodau gwahanol ar gyfer yr hyn y dylai gwahanol fyfyrwyr fod yn anelu at ei wneud wrth ddatblygu eu sgiliau?
- Ydych chi'n neilltuo amser i ganolbwyntio ar ddatblygu sgiliau yn benodol?



5. Parhau i ymarfer

I gyflymu'r cynnydd o ran y sgiliau hanfodol, dylid eu defnyddio a'u cadarnhau mor aml ag y bo modd – pryd bynnag y byddwch yn cael y cyfle gyda'r plant a'r bobl ifanc hynny.

Pethau i'w hystyried:

- A oes cyfleoedd rheolaidd i fyfyrwyr ddefnyddio eu sgiliau hanfodol?
- Pan wnânt hynny, a yw'r cyfleoedd hyn yn cael eu hamlygu'n glir iddynt?
- A oes cyfle rheolaidd i fyfyrwyr ar y sgiliau a sut y cawsant eu datblygu?



6. Ei wireddu

Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gweld pa mor berthnasol yw'r sgiliau hyn trwy eu cysylltu gyda'r byd go iawn a thrwy ddwyn problemau a sialensiau go iawn i weithio arnynt.

Pethau i'w hystyried:

- A yw'r sgiliau wedi'u fframio o ran eu defnyddioldeb ar gyfer addysg, cyflogaeth a bywyd ehangach?
- A oes cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio eu sgiliau mewn gwahanol cyd-destunau?
- Ydych chi'n defnyddio dolenni i gyflogwyr i gefnogi adeiladu'r sgiliau hyn?

Ein man cychwyn yw wyth sgil hanfodol. Gan gael eu hadnabod gan lawer o enwau gwahanol, mae'r wyth sgil hyn yn mapio i'r pedwar parth sy'n codi dro ar ôl tro fel y sgiliau craidd, trosglwyddadwy ar gyfer cyflogaeth.



Mewn parau maent yn ymdrin â sgiliau cyfathrebu, datrys problemau creadigol, hunanreoli a chydweithio. Mae'r wyth sgil hyn wedi'u nodi yn Fframwaith Cyffredinol Adeiladwr Sgiliau.



Mae'r Fframwaith yn chwalu pob un o'r wyth sgil hanfodol yn gamau pendant y gellir eu datblygu yn eu tro. Gallwn ei ddefnyddio i egluro sut olwg sydd ar lwyddiant ym mhob sgil ac i fapio'r llwybr ar gyfer twf.

Mae'r Fframwaith yn benllanw pedair blynedd o ddysgu ac mae'n adeiladu ar arbenigedd dros 120 o sefydliadau ac unigolion blaenllaw ar draws y sector. Mae hefyd wedi cael ei adolygu'n annibynnol ddwywaith.



Gwrando

Cael, cadw a phrosesu gwybodaeth neu syniadau

Mae'r sgil hon yn ymwneud â gallu derbyn gwybodaeth yn effeithiol - p'un a yw'n dod gan gyfoed, athro neu rywun arall yn gyfan gwbl.

I ddechrau, mae'r camau sgiliau yn canolbwyntio ar allu gwrando'n effeithiol ar eraill - gan gynnwys cofio cyfarwyddiadau byr, deall pam bod eraill yn cyfathrebu a chofnodi gwybodaeth bwysig.

Yna mae unigolion yn canolbwyntio ar sut maen nhw'n dangos eu bod nhw'n gwrando'n effeithiol, yn meddwl am iaith y corff, cwestiynau agored a chrynhoi ac aralleirio.

Y tu hwnt i hynny, mae'r pwyslais ar fod yn ymwybodol o sut y gallai siaradwr ddylanwadu amynt, trwy naws ac iaith.

Mae'r camau olaf yn ymwneud â gwrando beirniadol - cymharu safbwyntiau, nodi rhagfarnau, gwerthuso syniadau a bod yn wrthrychol.

The Framework is protected by a Creative Commons Attribution-NoDerivatives 4.0 International Public License.

7 / Skills Builder Universal Framework - Education

DECHRAU ARNI

Gwrando ar eraill

Cam 0	Rwy'n gwrando ar eraill heb dorri ar draws
Cam 1	Rwy'n gwrando ar eraill a gallaf gofio cyfarwyddiadau byr
Cam 2	Rwy'n gwrando ar eraill a gallaf ofyn cwestiynau os nad wyf yn deall
Cam 3	Rwy'n gwrando ar eraill a gallaf ddweud wrth rywun arall beth oedd cynnwys y sgwrs
Cam 4	Rwy'n gwrando ar eraill a gallaf ddeall pam eu bod yn cyfathrebu â mi
Cam 5	Rwy'n gwrando ar eraill gan gofnodi gwybodaeth bwysig wrth wrando

CANOLRADD

Dangos gwrando

Cam 6	Rwy'n dangos fy mod yn gwrando drwy'r ffordd yr wyf yn defnyddio cyswllt llygaid ac iaith y corff
Cam 7	Rwy'n dangos fy mod yn gwrando drwy ddefnyddio cwestiynau agored i ehangu fy nealltwriaeth
Cam 8	Rwy'n dangos fy mod yn gwrando drwy grynhoi neu aralleirio'r hyn yr wyf yn ei glywed

UWCH

Adnabod dylanwad

Cam 9	Rwyf yn ymwybodol o'r modd y mae siaradwr yn dylanwadu arnaf drwy dŏn eu llais
Cam 10	Rwyf yn ymwybodol o'r modd y mae siaradwr yn dylanwadu arnaf drwy eu hiaith

MEISTROLAETH

Gwrando mewn ffordd feirniadol

Cam 11	Rwy'n gwrando'n feirniadol ac yn cymharu gwahanol safbwyntiau
Cam 12	Rwy'n gwrando'n feirniadol gan feddwl am darddiad gwahanol safbwyntiau
Cam 13	Rwy'n gwrando'n feirniadol gan nodi unrhyw dueddiadau posibl mewn gwahanol safbwyntiau
Cam 14	Rwy'n gwrando'n feirniadol ac yn gofyn cwestiynau i werthuso gwahanol safbwyntiau
Cam 15	Rwy'n gwrando'n feirniadol ac yn edrych y tu hwnt i'r ffordd y mae siaradwr yn siarad neu'n ymddwyn i werthuso gwahanol safbwyntiau yn wrthrychol

- 1 Diffiniad sgiliau
- 2 Y dilyniant thematig mewn datblygu sgiliau
- 3 Bydd myfyrwyr yn dechrau ar lefelau gwahanol, felly mae'n hanfodol canfod y cam cyntaf
- 4 Mae'r wladwriaeth hon yn helpu unigolion i ddeall eu sgiliau eu hunain



Gwrando

Cael, cadw a phrosesu gwybodaeth neu syniadau

Mae'r sgil hon yn ymwneud â gallu derbyn gwybodaeth yn effeithiol - p'un a yw'n dod gan gyfoed, athro neu rywun arall yn gyfan gwbl.

I ddechrau, mae'r camau sgiliau yn canolbwyntio ar allu gwrando'n effeithiol ar eraill - gan gynnwys cofio cyfarwyddiadau byr, deall pam bod eraill yn cyfathrebu a chofnodi gwybodaeth bwysig.

Yna mae unigolion yn canolbwyntio ar sut maen nhw'n dangos eu bod nhw'n gwrando'n effeithiol, yn meddwl am iaith y corff, cwestiynau agored a chrynhoi ac aralleirio.

Y tu hwnt i hynny, mae'r pwyslais ar fod yn ymwybodol o sut y gallai siaradwr ddylanwadu arnynt, trwy naws ac iaith.

Mae'r camau olaf yn ymwneud â gwrando beirniadol - cymharu safbwyntiau, nodi rhagfarnau, gwerthuso syniadau a bod yn wrthrychol.

The Framework is protected by a Creative Commons Attribution-NoDerivatives 4.0 International Public License.

DECHRAU ARNI Gwrando ar eraill

Cam 0	Rwy'n gwrando ar eraill heb dorri ar draws
Cam 1	Rwy'n gwrando ar eraill a gallaf gofio cyfarwyddiadau byr
Cam 2	Rwy'n gwrando ar eraill a gallaf ofyn cwestiynau os nad wyf yn deall
Cam 3	Rwy'n gwrando ar eraill a gallaf ddweud wrth rywun arall beth oedd cynnwys y sgwrs
Cam 4	Rwy'n gwrando ar eraill a gallaf ddeall pam eu bod yn cyfathrebu â mi
Cam 5	Rwy'n gwrando ar eraill gan gofnodi gwybodaeth bwysig wrth wrando

CANOLRADD Dangos gwrando

Cam 6	Rwy'n dangos fy mod yn gwrando drwy'r ffordd yr wyf yn defnyddio cyswllt llygaid ac iaith y corff
Cam 7	Rwy'n dangos fy mod yn gwrando drwy ddefnyddio cwestiynau agored i ehangu fy nealltwriaeth
Cam 8	Rwy'n dangos fy mod yn gwrando drwy grynhoi neu aralleirio'r hyn yr wyf yn ei glywed

UWCH Adnabod dylanwad

Cam 9	Rwyf yn ymwybodol o'r modd y mae siaradwr yn dylanwadu arnaf drwy dôn eu llais
Cam 10	Rwyf yn ymwybodol o'r modd y mae siaradwr yn dylanwadu arnaf drwy eu hiaith

MEISTROLAETH Gwrando mewn ffordd feirniadol

Cam 11	Rwy'n gwrando'n feirniadol ac yn cymharu gwahanol safbwyntiau
Cam 12	Rwy'n gwrando'n feirniadol gan feddwl am darddiad gwahanol safbwyntiau
Cam 13	Rwy'n gwrando'n feirniadol gan nodi unrhyw dueddiadau posibl mewn gwahanol safbwyntiau
Cam 14	Rwy'n gwrando'n feirniadol ac yn gofyn cwestiynau i werthuso gwahanol safbwyntiau
Cam 15	Rwy'n gwrando'n feirniadol ac yn edrych y tu hwnt i'r ffordd y mae siaradwyr yn siarad neu'n ymddwyn i werthuso gwahanol safbwyntiau yn wrthrychol



Siarad

Cyfleu gwybodaeth neu syniadau ar lafar

Mae siarad yn ymwneud â sut i gyfathrebu'n effeithiol ag eraill, gan gofio a ydyn nhw'n siarad â chyfoedion, athrawon neu eraill mewn gwahanol leoliadau. I ddechrau, mae'r sgil hon yn canolbwyntio ar allu siarad yn glir - yn gyntaf gydag unigolion cyfarwydd a grwpiau bach ac yna gyda'r rhai nad ydyn nhw'n eu hadnabod eto.

Mae'r cam nesaf yn ymwneud â bod yn siaradwr effeithiol trwy wneud pwyntiau'n rhesymegol, trwy feddwl am yr hyn y mae gwrandawyr eisoes yn ei wybod a defnyddio iaith, tôn ac ystum priodol. Y tu hwnt i hynny, mae unigolion yn canolbwyntio ar siarad yn ddifyr trwy ddefnyddio ffeithiau ac enghreifftiau, cymhorthion gweledol, a'u mynegiant a'u hystum.

Y tu hwnt i'r cam hwnnw, bydd siaradwyr yn ymaddasu i ymateb eu gwrandawyr ac yn barod am wahanol sefyllfaoedd. Mae'r camau olaf yn canolbwyntio ar siarad yn ddylanwadol - gan ddefnyddio strwythur, enghreifftiau, ffeithiau a gweledigaeth i ddarbwyllw gwrandawyr.

DECHRAU ARNI Siarad yn glir ac yn effeithiol

Cam 0	Rwy'n siarad yn glir gyda phobl yr wyf yn eu hadnabod
Cam 1	Rwy'n yn glir gyda grwpiau bach o bobl yr wyf yn eu hadnabod
Cam 2	Rwy'n siarad yn glir ag unigolion a grwpiau bach nad wyf yn eu hadnabod
Cam 3	Rwy'n siarad yn effeithiol drwy gynnig pwyntiau mewn trefn resymegol
Cam 4	Rwy'n siarad yn effeithiol drwy feddwl am yr hyn y mae fy ngwrandawyr eisoes yn ei wybod
Cam 5	Rwy'n siarad yn effeithiol drwy ddefnyddio iaith briodol
Cam 6	Rwy'n siarad yn effeithiol drwy ddefnyddio tôn, mynegiant ac ystum priodol

CANOLRADD Siarad mewn ffordd ddifyr

Cam 7	Rwy'n siarad mewn ffordd sy'n ymgysylltu ag eraill drwy ddefnyddio ffeithiau ac enghreifftiau i gefnogi fy mhwyntiau
Cam 8	Rwy'n siarad mewn modd sy'n ymgysylltu ag eraill drwy ddefnyddio cymhorthion gweledol i gefnogi fy mhwyntiau
Cam 9	Rwy'n siarad mewn modd sy'n ymgysylltu ag eraill drwy ddefnyddio tôn, mynegiant ac ystum i ennyn diddordeb y gwrandawyr

UWCH Siarad mewn ffordd ymaddasol

Cam 10	Rwy'n addasu'r ffordd yr wyf yn siarad drwy newid fy iaith, tôn a mynegiant yn ddibynnol ar ymateb y gwrandawyr
Cam 11	Rwy'n addasu'r ffordd yr wyf yn siarad drwy gynllunio ar gyfer gwahanol ymatebion posibl gan y gwrandawyr
Cam 12	Rwyf yn addasu'r ffordd yr wyf yn siarad drwy newid fy nghynnwys yn ddibynnol ar ymateb y gwrandawyr

MEISTROLAETH Siarad mewn ffordd ddylanwadol

Cam 13	Rwy'n siarad yn ddylanwadol drwy newid strwythur fy mhwyntiau i ganfod y ffordd orau o berswadio gwrandawyr
Cam 14	Rwy'n siarad yn ddylanwadol drwy newid yr enghreifftiau a'r ffeithiau yr wyf yn eu defnyddio i berswadio'r gwrandawyr yn y ffordd orau
Cam 15	Rwy'n siarad yn ddylanwadol drwy roi gweledigaeth bendant sy'n perswadio'r gwrandawyr



Datrys Problemau

Y gallu i ddarganfod datrysiad i sefyllfa neu her

Mae'r sgil hon yn canolbwyntio ar sut i ddatrys problemau, gan gydnabod, er mai rhan ohono yw gwybodaeth a phrofiad technegol, mae yna hefyd offer trosglwyddadwy y gall unigolion eu datblygu a'u defnyddio.

Mae'r camau cyntaf yn canolbwyntio ar allu dilyn cyfarwyddiadau i gwblhau tasgau, ceisio cymorth a gwybodaeth ychwanegol os oes angen. Mae'r cam nesaf yn canolbwyntio ar allu archwilio problemau trwy greu ac asesu gwahanol atebion posib. Mae hyn yn cynnwys problemau mwy cymhleth, heb ddatrysiad technegol syml.

Y tu hwnt i hyn, mae'r ffocws ar archwilio atebion cymhleth - meddwl am achosion ac effeithiau, cynhyrchu opsiynau, a gwerthuso'r opsiynau hynny. Mae hyn yn ymestyn i ddadansoddi gan ddefnyddio rhesymu a damcaniaethau rhesymegol.

Yn olaf, mae unigolion yn gweithredu cynlluniau strategol i ddatrys problemau cymhleth, asesu eu llwyddiant, gan dynnu gwersi o hynny ar gyfer y dyfodol.

The Framework is protected by a Creative Commons Attribution-NoDerivatives 4.0 International Public License.

DECHRAU ARNI Cwblhau tasgau

Cam 0	Rwy'n cwblhau tasgau trwy ddilyn cyfarwyddiadau
Cam 1	Rwy'n cwblhau tasgau trwy ddod o hyd i rywun i helpu os oes angen
Cam 2	Rwy'n cwblhau tasgau trwy egluro problemau i rywun arall i gael cyngor os oes angen
Cam 3	Rwy'n cwblhau tasgau trwy ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnaf

CANOLRADD Archwilio problemau

Cam 4	Rwy'n archwilio problemau trwy greu gwahanol atebion posibl
Cam 5	Rwy'n archwilio problemau trwy feddwl am fanteision ac anfanteision atebion posibl
Cam 6	Rwy'n archwilio problemau cymhleth trwy nodi pan nad oes atebion technegol syml
Cam 7	Rwy'n archwilio problemau cymhleth trwy ddatblygu fy nealltwriaeth trwy ymchwilio'r pwnc
Cam 8	Rwy'n archwilio problemau cymhleth trwy ddadansoddi'r achosion a'r effeithiau

UWCH Dadansoddi problemau cymhleth a datrysiadau

Cam 9	Rwy'n creu atebion ar gyfer problemau cymhleth trwy greu ystod o opsiynau
Cam 10	Rwy'n creu atebion ar gyfer problemau cymhleth trwy werthuso effeithiau cadarnhaol a negyddol ystod o opsiynau
Cam 11	Rwy'n dadansoddi problemau cymhleth trwy ddefnyddio rhesymeg
Cam 12	Rwy'n dadansoddi problemau cymhleth trwy greu a phrofi damcaniaethau

MEISTROLAETH Gweithredu cynlluniau strategol

Cam 13	Rwy'n gweithredu cynlluniau strategol i ddatrys problemau cymhleth
Cam 14	Rwy'n gweithredu cynlluniau strategol i ddatrys problemau cymhleth ac asesu eu llwyddiant
Cam 15	Rwy'n gweithredu cynlluniau strategol i ddatrys problemau cymhleth a dysgu'n barhaus i fireinio'r cynlluniau hynny dros amser



Creadigrwydd

Defnyddio dychmyg a chreu syniadau newydd

Creadigrwydd sy'n cyd-fynd â Datrys Problemau, ac mae'n ymwneud â chynhyrchu cynlluniau blaengar neu syniadau y gellir wedyn eu mireinio trwy'r broses o ddatrys problemau.

Mae'r ychydig gamau cyntaf yn canolbwyntio ar hyder yr unigolyn wrth dychmygu gwahanol sefyllfaoedd a rhannu eu syniadau.

Yna canolbwyntir ar gynhyrchu syniadau - defnyddio briff clir, gwneud gwelliannau i rywbeth sydd eisoes yn bodoli a chyfuno cysyniadau. Yna mae unigolion yn defnyddio creadigrwydd yng nghyd-destun eu gwaith a'u bywyd ehangach. Gallant adeiladu ar hyn i ddatblygu syniadau gan ddefnyddio offer fel mapio meddwl, cwestiynu ac ystyried gwahanol safbwyntiau.

Mae'r camau uwch yn canolbwyntio ar gynyddu blaengaredd effeithiol mewn lleoliadau grŵp a thrwy chwilio am brofiadau a symbyliadau amrywiol. Yn olaf, mae unigolion yn cefnogi eraill i arloesi, trwy rannu offer, nodi'r offer cywir ar gyfer y sefyllfa a thrwy annog.

The Framework is protected by a Creative Commons Attribution-NoDerivatives 4.0 International Public License.

DECHRAU ARNI Dychmygu a chreu syniadau

Cam 0	Rwy'n dychmygu gwahanol sefyllfaoedd
Cam 1	Rwy'n dychmygu gwahanol sefyllfaoedd ac yn gallu egluro'r hyn rwy'n ei dychmygu
Cam 2	Rwy'n dychmygu gwahanol sefyllfaoedd ac yn gallu dod â nhw'n fyw mewn gwahanol ffyrdd
Cam 3	Rwy'n creu syniadau pan fyddaf wedi cael briff clir
Cam 4	Rwy'n creu syniadau i wella rhywbeth
Cam 5	Rwy'n creu syniadau trwy gyfuno gwahanol gysyniadau

CANOLRADD Defnyddio creadigrwydd a datblygu syniadau

Cam 6	Rwy'n defnyddio creadigrwydd yng nghyd-destun gwaith
Cam 7	Rwy'n defnyddio creadigrwydd yng nghyd-destun fy mywyd ehangach
Cam 8	Rwy'n datblygu syniadau trwy ddefnyddio techneg mapio meddwl
Cam 9	Rwy'n datblygu syniadau trwy ofyn cwestiynau i mi fy hun
Cam 10	Rwy'n datblygu syniadau trwy ystyried gwahanol safbwyntiau

UWCH Arloesi mewn ffordd effeithiol

Cam 11	Rwy'n arloesi'n effeithiol wrth weithio mewn grŵp
Cam 12	Rwy'n arloesi'n effeithiol trwy chwilio am brofiadau a symbyliadau amrywiol

MEISTROLAETH Cynorthwyo eraill i arloesi

Cam 13	Rwy'n cefnogi eraill i arloesi trwy rannu ystod o offer
Cam 14	Rwy'n cefnogi eraill i arloesi trwy werthuso'r offer creadigol cywir ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd
Cam 15	Rwy'n cefnogi eraill i arloesi trwy eu hyfforddi i fod yn fwy creadigol



Aros yn Gadarnhaol

Y gallu i ddefnyddio tactegau a strategaethau i oresgyn rhwystrau a chyflawni nodau

Mae'r sgîl hon yn ymwneud â pharatoi unigolion i reoli eu hemosiynau'n effeithiol a gallu parhau i fod yn frwdfrydig, ac yn y pen draw ysgogi eraill, hyd yn oed wrth wynebu anawsterau.

Mae'r camau cynnar yn canolbwyntio ar adnabod emosiynau - yn enwedig teimlo'n bositif neu'n negyddol. Gan adeiladu ar hynny, mae'r gallu i ddal ati - a pheidio â chynhyrfu, meddwl beth aeth o'i le, a cheisio codi calon ac annog eraill.

Mae'r ffocws wedyn yn troi at nodi cyfleoedd newydd mewn sefyllfaoedd anodd, rhannu'r rheini, ac addasu neu greu cynlluniau yn unol â hynny. Yn y camau uwch, mae unigolion yn nodi ac yn rheoli risgiau a manteision o ran cyfleoedd.

Yn olaf, mae unigolion yn cefnogi eraill i fod yn bositif drwy reoli eu hymateb eu hunain, helpu eraill i weld cyfleoedd a chreu cynlluniau i'w cyflawni.

The Framework is protected by a Creative Commons Attribution-NoDerivatives 4.0 International Public License.

DECHRAU ARNI

Dal ati

Cam 0	Gallaf ddweud pan rwy'n teimlo'n bositif neu'n negyddol
Cam 1	Gallaf ddweud pan fydd eraill yn teimlo'n bositif neu'n negyddol
Cam 2	Rwy'n dal ati pan aiff rhywbeth o'i le
Cam 3	Rwy'n dal ati ac nid wyf yn cynhyrfu pan aiff rhywbeth o'i le
Cam 4	Rwy'n dal ati pan aiff rhywbeth o'i le, gan feddwl am yr hyn sydd wedi digwydd
Cam 5	Rwy'n dal ati pan aiff rhywbeth o'i le a helpu i godi calon eraill
Cam 6	Rwy'n dal ati pan aiff rhywbeth o'i le ac yn annog eraill i ddal ati

CANOLRADD

Darganfod cyfleoedd

Cam 7	Rwy'n chwilio am gyfleoedd mewn sefyllfaoedd anodd
Cam 8	Rwy'n chwilio am gyfleoedd, ac yn eu rhannu gydag eraill
Cam 9	Rwy'n edrych am gyfleoedd mewn sefyllfaoedd anodd, ac yn addasu cynlluniau i ddefnyddio'r cyfleoedd hyn
Cam 10	Rwy'n edrych am gyfleoedd mewn sefyllfaoedd anodd, ac yn creu cynlluniau newydd i ddefnyddio'r cyfleoedd hyn

UWCH

Rheoli risgiau a gwobrau

Cam 11	Rwy'n nodi risgiau a buddion mewn cyfleoedd
Cam 12	Rwy'n nodi risgiau a buddion mewn cyfleoedd, ac yn gwneud cynlluniau i'w rheoli

MEISTROLAETH

Cynorthwyo eraill i aros yn gadarnhaol

Cam 13	Rwy'n helpu eraill i fod yn bositif, trwy reoli fy ymatebion fy hun
Cam 14	Rwy'n helpu eraill i fod yn bositif, trwy helpu eraill i weld cyfleoedd
Cam 15	Rwy'n helpu eraill i fod yn bositif, trwy helpu eraill i weld cyfleoedd a chreu cynlluniau i'w cyflawni



Anelu'n Uchel

Y gallu i osod nodau clir a phendant a chreu llwybr cadarn i'w cyflawni

Mae'r sgil hon yn ymwneud â gallu cynllunio'n effeithiol - er mwyn cyflawni nodau'r sefydliad, a hefyd gosod targedau ar gyfer eu datblygiad personol eu hunain. I ddechrau, mae a wnelo hyn â gwybod pryd mae rhywbeth yn rhy anodd, a chael ymdeimlad o sut mae llwyddiant yn edrych.

Mae'r ffocws wedyn ar weithio'n ofalus ac yn fanwl, ymfalchïo mewn llwyddiant a chael agwedd gadarnhaol at heriau newydd. Gan adeiladu ar hyn, mae unigolion yn gosod nodau iddynt eu hunain, yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen, ac yna, yn trefnu a blaenoriaethu tasgau, sicrhau adnoddau a chynnwys eraill yn effeithiol.

Yn y camau uwch, mae'r ffocws ar greu cynlluniau'n seiliedig ar set sgiliau'r unigolyn, gyda thargedau clir, ac adeiladu ar safbwyntiau allanol. Ar y lefel uchaf, mae unigolion yn datblygu strategaethau hirdymor. Caiff y rhain eu llywio gan asesiad o ffactorau mewnol ac allanol, wedi'u strwythuro drwy gerrig milltir rheolaidd a dolenni adborth.

The Framework is protected by a Creative Commons Attribution-NoDerivatives 4.0 International Public License.

DECHRAU ARNI Gweithio mewn ffordd effeithiol

Cam 0	Rwy'n gwybod pan fydd rhywbeth yn teimlo'n rhy anodd
Cam 1	Rwy'n gwybod sut mae gwneud yn dda yn edrych i mi
Cam 2	Rwy'n gweithio gan roi gofal a sylw i fanylder
Cam 3	Rwy'n gweithio gyda balchder pan fyddaf yn llwyddiannus
Cam 4	Rwy'n gweithio gydag agwedd bositif tuag at heriau newydd

CANOLRADD Gosod nodau

Cam 5	Rwy'n gosod nodau i mi fy hun
Cam 6	Rwy'n gosod nodau'n seiliedig ar ddealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen
Cam 7	Rwy'n gosod nodau gan osod tasgau mewn trefn a'u blaenoriaethu i'w cyflawni
Cam 8	Rwy'n gosod nodau ac yn sicrhau'r adnoddau priodol i'w cyflawni
Cam 9	Rwy'n gosod nodau ac yn bwriadu cynnwys eraill yn y ffordd orau

UWCH Creu cynlluniau

Cam 10	Rwy'n creu cynlluniau sy'n cael eu llywio gan fy set sgiliau fy hun ac eraill
Cam 11	Rwy'n creu cynlluniau sy'n cynnwys targedau clir i wneud cynnydd gwirioneddol
Cam 12	Rwy'n creu cynlluniau sy'n cael eu llywio gan safbwyntiau allanol, gan gynnwys beirniadaeth adeiladol

MEISTROLAETH Datblygu strategaethau hirdymor

Cam 13	Rwy'n datblygu strategaethau tymor hir gan ystyried cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau
Cam 14	Rwy'n datblygu strategaethau tymor hir sy'n defnyddio cerrig milltir rheolaidd i gadw popeth ar y trywydd iawn
Cam 15	Rwy'n datblygu strategaethau tymor hir sy'n cynnwys dolenni adborth i gefnogi hyblygrwydd a'r gallu i addasu



Arweinyddiaeth

Cynorthwyo, annog a datblygu eraill i gyflawni nod a rennir

Mae'r sgîl hon yn berthnasol nid yn unig i unigolion sy'n arweinwyr, ond hefyd i unigolion sy'n gweithio gyda chyfoedion mewn timau. Yn y camau cynharaf, mae'r ffocws ar empathi sylfaenol - deall eu teimladau eu hunain, gallu eu rhannu, a chydabod teimladau pobl eraill. Mae'r ffocws ar reoli - rhannu tasgau, rheoli amser a rhannu adnoddau, rheoli trafodaethau grŵp a delio ag anghytundebau.

Y tu hwnt i hynny, mae unigolion yn meithrin eu hymwybyddiaeth o'u cryfderau a'u gwendidau eu hunain, a rhai eu timau. Mae hyn yn eu galluogi i ddyrannu tasgau'n effeithiol. Yna byddant yn meithrin technegau i fentora, hyfforddi ac ysgogi eraill. Yn y camau uchaf, bydd unigolion yn gallu myfyrio ar eu harddull eu hunain o arwain, a deall ei heffaith ar eraill.

Yn y pen draw, dylent allu adeiladu ar eu cryfderau a lliniaru eu gwendidau, ac addasu eu harddull arwain i'r sefyllfa.

DECHRAU ARNI Deall emosiynau

- Cam 0** Rwy'n gwybod sut rydw i'n teimlo am rywbeth
- Cam 1** Rwy'n gwybod sut i esbonio fy nheimladau am rywbeth i'm tîm
- Cam 2** Rwy'n gwybod sut i gydnabod teimladau pobl eraill am rywbeth

CANOLRADD Rheoli tasgau

- Cam 3** Rwy'n llwyddo i rannu tasgau rhwng eraill mewn ffordd deg
- Cam 4** Rwy'n rheoli amser ac yn rhannu adnoddau i gefnogi cwblhau tasgau
- Cam 5** Rwy'n rheoli trafodaethau grŵp i ddod i benderfyniadau y cytunir arnynt
- Cam 6** Rwy'n rheoli anghytundebau i gyrraedd atebion y cytunir arnynt

UWCH Rheoli a chynorthwyo eraill

- Cam 7** Rwy'n cydnabod fy nghryfderau a'm gwendidau fy hun fel arweinydd
- Cam 8** Rwy'n cydnabod cryfderau a gwendidau eraill yn fy nhîm
- Cam 9** Rwy'n cydnabod cryfderau a gwendidau eraill yn fy nhîm, ac yn defnyddio hynny i ddyrannu rolau
- Cam 10** Rwy'n cefnogi eraill trwy fentora
- Cam 11** Rwy'n cefnogi eraill trwy hyfforddi
- Cam 12** Rwy'n cefnogi eraill trwy eu cymell

MEISTROLAETH Arweinyddiaeth ymaddasol

- Cam 13** Rwy'n myfyrio ar fy arddull arweinyddiaeth fy hun a'i effaith ar eraill
- Cam 14** Rwy'n myfyrio ar fy arddull arweinyddiaeth fy hun, ac yn adeiladu ar fy nghryfderau ac yn lliniaru fy ngwendidau
- Cam 15** Rwy'n myfyrio ar fy arddull arweinyddiaeth fy hun, ac yn addasu fy null yn ôl y sefyllfa



Gwaith tîm

Cydweithio gydag eraill i gyflawni nod a rennir

Gellir cymhwyso'r sgil yma i gydweithio o fewn tîmoedd ffurfiol ac anffurfiol, gyda'ch cyfoedion, eich athrawon ac eraill. Yn y bôn, mae hwn i ymwneud ag unigolion yn cwrdd â disgygliadau o ran cymryd cyfrifoldeb, ymddwyn yn addas, bod yn amserol ac yn ddibynadwy. Mae'r sgil hefyd yn ehangu hyd at ddeall a dangos parch at yr amrywiaeth a welir mewn diwylliannau a chredoau pobl sydd â chefnidiroedd gwahanol.

Mae'r cam nesaf yn ffocysu ar gyfrannu i dîm drwy wneud penderfyniadau fel grŵp, adnabod gwerth syniadau pobl eraill ac annog eraill i gyfrannu hefyd. Y tu hwnt i hwn, mae unigolion yn gwella eu tîmoedd trwy reoli gwrthdaro ac adeiladu perthnasau y tu hwnt i'r aelodau tîm eu hunain. Ar y camau uchaf, mae unigolion yn ffocysu ar sut i ddylanwadu ar eu tîm trwy awgrymu gwelliannau a dysgu oddi ar fethiannau yn y gorffennol.

Yn bennaf, mae unigolion yn cefnogi'r tîm trwy werthuso cryfderau a gwendidau eraill a chyflwyno arbenigedd a pherthnasau allanol i'r grŵp.

The Framework is protected by a Creative Commons Attribution-NoDerivatives 4.0 International Public License.

DECHRAU ARNI Gweithio'n dda gydag eraill

Cam 0	Rwy'n gweithio gydag eraill mewn ffordd bositif
Cam 1	Rwy'n gweithio'n dda gydag eraill trwy ymddwyn yn briodol
Cam 2	Rwy'n gweithio'n dda gydag eraill trwy fod yn brydlon a dibynadwy
Cam 3	Rwy'n gweithio'n dda gydag eraill trwy gymryd cyfrifoldeb am gwblhau fy nhasgau
Cam 4	Rwy'n gweithio'n dda gydag eraill trwy eu cefnogi os gallaf wneud hynny
Cam 5	Rwy'n gweithio'n dda gydag eraill trwy ddeall a pharchu amrywiaeth diwylliannau, credoau a chefnidiroedd eraill

CANOLRADD Cyfrannu i'r grŵp

Cam 6	Rwy'n cyfrannu at wneud penderfyniadau grŵp
Cam 7	Rwy'n cyfrannu at wneud penderfyniadau grŵp, gan gydnabod gwerth syniadau eraill
Cam 8	Rwy'n cyfrannu at wneud penderfyniadau grŵp, gan annog eraill i gyfrannu

UWCH Gwella tîm

Cam 9	Rwy'n gwella'r tîm trwy beidio â chreu gwrthdaro di-fudd
Cam 10	Rwy'n gwella'r tîm trwy ddatrys gwrthdaro di-fudd
Cam 11	Rwy'n gwella'r tîm trwy adeiladu perthnasoedd y tu hwnt i fy nhîm uniongyrchol

MEISTROLAETH Dylanwadu ar dîm

Cam 12	Rwy'n dylanwadu ar y tîm trwy fyfyrion ar gynnydd ac awgrymu gwelliannau
Cam 13	Rwy'n dylanwadu ar y tîm trwy werthuso llwyddiannau a methiannau a rhannu gwersi
Cam 14	Rwy'n cefnogi'r tîm trwy werthuso cryfderau a gwendidau eraill, a'u cefnogi yn unol â hynny
Cam 15	Rwy'n cefnogi'r tîm trwy gynnig arbenigedd a pherthnasoedd allanol